OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2140 (Cy.189)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - - *5 Awst 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *8 Awst 2008*
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Awst 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae rheoliadau 17 a 23 yn dod i rym ar 27 Hydref 2008 ac yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Mae Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008(**3**) wedi'u diwygio'n unol â'r rheoliadau canlynol.

3.—(1) Yn rheoliad 2(1), yn y man priodol, mewnosoder—

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), adrannau 146, 153 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p.1), adran 722 ac Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p.14), adran 147, a Deddf Addysg Uwch 2004 (p.8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c) (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)), yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) O.S. 2008/1273 (Cy. 130).

"ystyr "grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion" ("*part-time grants for dependants*") yw'r grantiau a'r lwfans a restrir yn rheoliad 83B(1);

"ystyr "grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed" ("*part-time adult dependants' grant*") yw'r grant sy'n daladwy o dan reoliad 83C;

"ystyr "grant rhan-amser ar gyfer gofal plant" ("*part-time childcare grant*") yw'r grant sy'n daladwy o dan reoliad 83Ch;

"ystyr "lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni" ("*part-time parents' learning allowance*") yw'r lwfans sy'n daladwy o dan reoliad 83D;.

4.—(1) Yn rheoliad 3(8)(a), yn lle "o'r Ddeddf", rhodder "o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**4**)".

(2) Yn rheoliad 3(8)(b), yn lle "o'r Ddeddf", rhodder "o Ddeddf Addysg Uwch 2004".

5. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 4(7)—

(a) yn lle "mae", rhodder "os yw";

(b) yn lle "os nad", rhodder "nid"; ac

(c) yn lle "os yw'n" rhodder "mae'n".

6. Yn rheoliad 7(2), yn lle "baragraffau (4) a (5)" rhodder "baragraffau (3), (4) a (5)".

7. Yn rheoliad 21(1), hepgorer "Yn ddarostyngedig i baragraff (9),".

8. Yn rheoliad 23(12), yn lle "o ran blwyddyn academaidd y bydd yn ystod unrhyw ran ohoni yn", rhodder "os yw'n".

9. Yn rheoliad 27(6)(b), yn lle "mharagraff (4)", rhodder "mharagraff (5)".

10. Yn rheoliad 30(1)(f), hepgorer "(f)," ar ôl y geiriau "yn ddarostyngedig i is-baragraffau".

11. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 38(7), yn lle "Mae paragraff (7)", rhodder "Mae paragraff (6)".

12. Yn rheoliad 38(9), yn lle "o ran blwyddyn academaidd y bydd yn ystod unrhyw ran ohoni yn", rhodder "os yw'n".

13. Yn rheoliad 40(4)(b), ar ôl "sy'n fwy na £1,255" mewnosoder ", £1,255".

14. Yn rheoliad 54—

(a) ar ôl paragraff (8)(b), mewnosoder—

"(ba) **GFF** yw swm y grant at ffioedd, os oes unrhyw swm o gwbl, y mae'r myfyriwr cymwys yn ymgymhwyso ar ei gyfer o dan Ran 4;"; a

(b) ym mharagraff (9) yn lle "rheoliad 54(1)(ch)" rhodder "rheoliad 54(1)(d)".

15. Yn rheoliad 56, ar ôl paragraff (6), mewnosoder—

"(6A) Yn ddarostyngedig i baragraff (6B), nid oes unrhyw gymorth o dan Ran 5 yn ddyledus mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod mewn blwyddyn academaidd pan fydd y myfyriwr cymwys yn garcharor, oni fyddai'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru yn yr holl amgylchiadau i'r cymorth gael ei dalu mewn perthynas â'r diwrnod hwnnw.

(6B) Nid yw paragraff (6A) yn gymwys mewn perthynas â grantiau at gostau byw myfyrwyr anabl.

(6C) Wrth benderfynu a fyddai'n briodol i gymorth fod yn ddyledus o dan baragraff (6A), mae'r amgylchiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt yn cynnwys y caledi ariannol a fyddai'n cael ei achosi pe na bai'r cymorth yn cael ei dalu ac a fyddai'n effeithio ar allu'r myfyriwr i barhau â'r cwrs pe na bai'r cymorth yn cael ei dalu.".

(**4**) 2004 p.8.

16. Yn rheoliad 59, ar ôl paragraff (8), mewnosoder—

"(8A) Yn ddarostyngedig i baragraff (8B), nid oes unrhyw gymorth o dan Ran 6 yn ddyledus mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod mewn blwyddyn academaidd pan fydd y myfyriwr cymwys yn garcharor, oni fyddai'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru yn yr holl amgylchiadau i'r cymorth gael ei dalu mewn perthynas â'r diwrnod hwnnw.

(8B) Wrth benderfynu a fyddai'n briodol i gymorth fod yn ddyledus o dan baragraff (8A), mae'r amgylchiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt yn cynnwys y caledi ariannol a fyddai'n cael ei achosi pe na bai'r cymorth yn cael ei dalu ac a fyddai'n effeithio ar allu'r myfyriwr i barhau â'r cwrs pe na bai'r cymorth yn cael ei dalu.".

17. Yn rheoliad 67(1)(a) —

(a) ar ôl is-is-baragraff (i) hepgorer "neu"; a

(b) ar ôl is-is-baragraff (ii) mewnosoder—

"neu

(iii) o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles2007(**5**) i lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm,".

18. Yn rheoliad 79(13), yn lle "neu reoliad 83", rhodder ", rheoliad 83 neu reoliadau 83A i 83G".

19. Yn rheoliad 79(14)(b), yn lle "reoliad 82(1)(b) neu 83", rhodder "reoliadau 82(1)(b), 83 neu 83A i 83G".

20. Yn rheoliad 79(15), ar ôl "reoliad 82" mewnosoder "neu reoliadau 83A i 83G".

21. Yn rheoliad 79(17), ar ôl "reoliad 82" mewnosoder "neu reoliadau 83A i 83G".

22. Ar ôl rheoliad 79(19), mewnosoder—

"(19A) Os bydd un o'r digwyddiadau a restrir yn is-baragraffau (a), (b), (d), (dd), (e), (f) neu (ff) o baragraff (21) yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd, caiff myfyriwr ymgymhwyso i gael grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion yn unol â'r Rhan hon mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r flwyddyn academaidd honno ond nid oes ganddo hawl i gael grant mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi.".

23. Yn rheoliad 82(5)(a)—

(a) ar ôl is-is-baragraff (i), hepgorer "neu"; a

(b) ar ôl is-is-baragraff (ii), mewnosoder—

"; neu

(iii) o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 i gael lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm;".

24. Ar ôl rheoliad 83, mewnosoder—

"**Grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion — cyffredinol**

83A.—(1) Mae gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl i gael grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion ar yr amod—

(a) nad yw'r myfyriwr rhan-amser wedi'i hepgor rhag bod â hawl gan unrhyw un o'r paragraffau canlynol, rheoliad 79 neu reoliad 81; a

(**5**) 2007 c. 5.

(b) bod y myfyriwr rhan-amser yn bodloni amodau'r hawl i gael y grant penodol y mae'n gwneud cais amdano.

(2) Nid oes gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl i gael grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion os yw'n garcharor.

83B.—(1) Mae'r grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion yn cynnwys yr elfennau canlynol—

(a) grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed;

(b) grant rhan-amser ar gyfer gofal plant;

(c) lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni.

(2) Mae amodau'r hawl ar gyfer pob elfen a'r symiau sy'n daladwy mewn perthynas â phob elfen wedi'u nodi, yn eu tro, yn rheoliadau 83C i 83G ac wedi'u penderfynu'n unol â'r rheoliadau hynny.

(3) Caniateir didynnu swm o unrhyw un o elfennau'r grantiau rhan-amser ar gyfer dibynyddion yn unol â rheoliadau 83F ac 83Ff.

Grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed

83C.—(1) Mae gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl i gael grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs rhan-amser dynodedig yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae'r grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed ar gael mewn perthynas ag un dibynnydd myfyriwr rhan-amser cymwys sydd naill ai —

(a) yn bartner y myfyriwr rhan-amser cymwys; neu

(b) yn ddibynnydd mewn oed i'r myfyriwr rhan-amser cymwys nad yw ei incwm net yn fwy na £3,705.

(3) Mae swm y grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo yn unol â rheoliadau 83Dd ac 83F i 83G, a'r swm sylfaenol yw—

(a) £2,580; neu

(b) os yw'r person y mae'r myfyriwr rhan-amser cymwys yn gwneud cais mewn perthynas ag ef am grant rhan-amser ar gyfer dibynyddion mewn oed yn preswylio fel arfer y tu allan i'r Deyrnas Unedig, unrhyw swm nad yw'n fwy na £2,580 ac sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

Grant rhan-amser ar gyfer gofal plant

83CH.—(1) Mae gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl, mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs rhan-amser dynodedig, i gael grant rhan-amser ar gyfer gofal plant yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), mae'r grant rhan-amser ar gyfer gofal plant ar gael mewn perthynas â blwyddyn academaidd y mae'r myfyriwr yn tynnu costau gofal plant rhagnodedig ynddi ar gyfer —

(a) plentyn dibynnol sydd o dan 15 oed yn union cyn dechrau'r flwyddyn academaidd; neu

(b) plentyn dibynnol sydd ag anghenion addysgol arbennig o fewn ystyr adran 312 o Ddeddf Addysg 1996(**6**) ac sydd o dan 17 oed yn union cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

(3) Nid oes gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl i gael grant o dan y rheoliad hwn os yw'r myfyriwr neu bartner y myfyriwr wedi dewis cael elfen gofal plant y credyd treth gweithio o dan Ran I o Ddeddf Credydau Treth 2002(**7**).

(4) Nid yw myfyriwr rhan-amser cymwys yn gymwys i gael grant o dan y rheoliad hwn os yw'r costau gofal plant rhagnodedig y mae'n eu tynnu'n cael eu talu neu os ydynt i'w talu gan y myfyriwr i'w bartner.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rheoliad83Dd a rheoliadau 83F i 83G, swm sylfaenol y grant gofal plant am bob wythnos yw—

(a) ar gyfer un plentyn dibynnol, 85 y cant o'r costau gofal plant rhagnodedig, hyd at uchafswm o £157.25 yr wythnos; neu

(b) ar gyfer dau neu fwy o blant dibynnol, 85 y cant o'r costau gofal plant rhagnodedig, hyd at uchafswm o £267.67 yr wythnos,

ac eithrio nad oes gan y myfyriwr hawl i gael unrhyw grant o'r fath mewn perthynas â phob wythnos sy'n syrthio o fewn y cyfnod rhwng diwedd y cwrs a diwedd y flwyddyn academaidd y daw'r cwrs i ben ynddi.

(6) Er mwyn cyfrifo swm sylfaenol y grant rhan-amser ar gyfer gofal plant—

(a) mae wythnos yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sul; a

(b) os yw wythnos y caiff costau gofal plant rhagnodedig eu tynnu mewn perthynas â hi yn syrthio'n rhannol o fewn y flwyddyn academaidd y mae grant rhan-amser ar gyfer gofal plant yn daladwy mewn perthynas â hi o dan y rheoliad hwn ac yn rhannol y tu allan iddi, mae uchafswm wythnosol y grant yn cael ei gyfrifo drwy luosi'r uchafswm wythnosol perthnasol ym mharagraff (5) â nifer y dyddiau yn yr wythnos honno sy'n syrthio o fewn y flwyddyn academaidd a rhannu'r canlyniad â saith.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "costau gofal plant rhagnodedig" ("*prescribed childcare charges*") yw costau gofal plant o ddisgrifiad a ragnodir at ddibenion adran 12 o Ddeddf Credydau Treth2002(**8**).

Lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni

83D.—(1) Mae gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl mewn cysylltiad â'i bresenoldeb ar gwrs rhan-amser dynodedig i gael y lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni os oes ganddo un neu fwy o ddibynyddion sy'n blant dibynnol.

(2) Mae swm y lwfans dysgu rhan-amser ar gyfer rhieni sy'n daladwy mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael ei gyfrifo'n unol â rheoliadau 83Dd ac 83F i 83G, a'r swm sylfaenol yw £1,470.

(**6**) 1996 p. 56; diwygiwyd adran 312 gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), Atodlen 7, paragraff 23, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), adran 140, Atodlen 30, paragraff 71 ac Atodlen 31 a Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), Atodlen 9, paragraff 56 a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40), Atodlen 1, paragraff 3.

(**7**) 2002 (p. 21) y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**8**) Mae rheoliad 14 o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Hawlogaeth a'r Gyfradd Uchaf) 2002 (O.S. 2002/2005) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/701, O.S. 2003/2815, O.S. 2004/762, O.S. 2004/1276, O.S. 2004/2663, O.S. 2005/769, O.S. 2005/2919, O.S. 2006/766, O.S. 2007/824, O.S. 2007/2479 ac O.S. 2008/604 yn nodi'r costau a ragnodir, ac felly costau gofal plant perthnasol, at ddibenion adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002.